Busnes Cymru | Business Wales

# CYMORTH SYDD AR GAEL I YMGYSYLLTU, RECRIWTIO A CHADW POBL IFANC



Mae amrywiaeth eang o gymorth ar gael i fusnesau. Rydyn ni wedi dod â'r holl wybodaeth hon at ei gilydd mewn un lle, er mwyn i chi allu dod o hyd i'r holl gymorth a'r gwasanaethau y gallai fod eu hangen arnoch i ddenu, recriwtio a chadw pobl ifanc yn eich busnes.

## CATEGORÏAU


- BIWROAU CYFLOGAETH A CHOLEGAU 2
- CEFNOGAETH ADNODDAU DYNOL 6
- CEFNOGAETH ARIANNOL 8
- CEFNOGAETH BENODOL AR GYFER GRADDEDIGION 9
- CEFNOGAETH BENODOL AR GYFER PRENTISIAETH 11
- CYFLEOEDD HYFFORDDIANT WEDI'U HARIANNU 13
- CYMORTH HYFFORDDIANT PELLACH 18
- CYMORTH IECHYD A LLESIANT 20
- PARTNERIAID ADDYSGOL 22
- PARTNERIAID CYFLOGAETH I WEITHIO Â NHW 24


Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# BIWROAU CYFLOGAETH A CHOLEGAU

## Coleg Caerdydd a'r Fro (CAVC)

Yma maent yn cynnig cyfleoedd datblygu gwych i gyflogwyr a'u gweithlu. Gall busnesau weithio mewn partneriaeth â CAVC i gefnogi'r gwaith o ddysgu a grymuso darpar weithwyr ifanc, yn ogystal â chyfleoedd rhwydweithio gyda busnesau yn yr un sector, i rannu syniadau ynghylch sut i gefnogi pobl ifanc i gael gwaith.

Mae rhagor o wybodaeth am sut i gymryd rhan yn CAVC ar gael yma:
Business - Cardiff and Vale College (cavcforbusiness.co.uk)

## Coleg Cambria

Gall Coleg Cambria gefnogi eich busnes drwy hyfforddi gweithwyr newydd a phresennol, datblygu sgiliau eich timau rheoli, yn ogystal â'ch helpu i gael mynediad at gronfeydd doniau newydd drwy eu myfyrwyr presennol.

I gael rhagor o wybodaeth am sut gallwch chi weithio gyda Choleg Cambria, ewch i:
Employers > Coleg Cambria

## Coleg Dewi Sant

Mae Coleg Dewi Sant yn gweithio gyda chyflogwyr sy'n gallu eu cefnogi i roi sgyrsiau penodol i'r sector i'w myfyrwyr, gan gynnwys y rheini ar gyfer diwrnodau sy'n canolbwyntio ar y sector. Maent yn cynnig cyfleoedd i gyflogwyr hysbysebu eu swyddi gwag ac yn rhoi cyfle iddynt fynychu eu ffeiriau swyddi a chymryd rhan yn y gwaith o sicrhau bod y cwricwlwm yn berthnasol i'r sgiliau sydd eu hangen ar fusnesau.

I gael rhagor o wybodaeth am sut gallwch chi gymryd rhan gyda Choleg Dewi Sant, anfonwch e-bost at: destinations@stdavidscollege.ac.uk

BIWROAU CYFLOGAETH A CHOLEGAU

## Coleg Gwent

Mae gan Goleg Gwent amrywiaeth o gyfleoedd y gall cyflogwyr gymryd rhan ynddynt i gefnogi datblygiad pobl ifanc. Mae hyn yn cynnwys Addewid Partneriaeth, mentora myfyrwyr, ymweliadau safle, gweithdai a dosbarthiadau meistr, a llawer mwy.

Er mwyn gweithio mewn partneriaeth â Coleg Gwent i ysbrydoli mwy o bobl ifanc, anfonwch e-bost at employers@coleggwent.ac.uk

Am ragor o wybodaeth: How to partner with us - Coleg Gwent

## Coleg Gŵyr Abertawe

Mae Coleg Gŵyr Abertawe yn cynnig cyrsiau helaeth i fusnesau i'w cefnogi i ddatblygu eu staff, gan gynnwys eu gweithwyr ifanc. Mae cyfleoedd i greu cyrsiau hyfforddi pwrpasol, sydd wedi'u cynllunio i ddiwallu anghenion eich busnes.

Cewch ragor o wybodaeth yma: Business Training | Gower College Swansea (gcs.ac.uk)

## Coleg Merthyr Tydfil

Mae Coleg Merthyr Tudful yn annog cyflogwyr i weithio gyda nhw i sicrhau bod eu cyrsiau'n cynnwys y sgiliau sydd eu hangen ar fusnesau gan weithwyr newydd. Gallant eich cysylltu â phobl ifanc sy'n chwilio am gyfleoedd gwaith, yn ogystal â chynnig cyfleoedd hyfforddi i'ch gweithwyr.

I gael mwy o wybodaeth ewch i: Employers | The College Merthyr Tydfil

## Coleg Pen-y-bont ar Ogwr

I gefnogi cyflogwyr i gysylltu â darpar weithwyr ifanc, mae Coleg Pen-y-bont ar Ogwr yn darparu cyfleoedd maen nhw'n annog busnesau i gymryd rhan ynddynt, fel lleoliadau gwaith, cysgodi, cystadlaethau, hyfforddi, dosbarthiadau meistr a mwy.

I gysylltu â Choleg Pen-y-bont ar Ogwr, anfonwch e-bost at cyfleoedd@bridgend.ac.uk

I gael mwy o wybodaeth, ewch i: Businesses and employers - Bridgend College

BIWROAU CYFLOGAETH A CHOLEGAU

## Coleg Sir Benfro

Nod y Biwro Cyflogaeth a Menter yng Ngholeg Sir Benfro yw paru'r ymgeisydd iawn â'r swydd iawn yn eich busnes. Gyda chronfa myfyrwyr o tua 3,000, byddwch yn dod o hyd i sbectrwm mawr o arbenigedd, sgiliau a phrofiad. Gallant helpu i baratoi ymgeiswyr at y pwynt recriwtio.

I gymryd rhan, cysylltwch â Choleg Sir Benfro ar 01437 753 463 | recruit@pembrokeshire.ac.uk

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i: www.pembrokeshire.ac.uk/eeb

## Coleg Sir Gar a Choleg Ceredigion

I gael cymorth i hyfforddi eich gweithwyr presennol neu newydd, gan gynnwys hyfforddiant pwrpasol sy'n benodol i'ch busnes neu'ch sector, efallai y bydd Coleg Sir Gâr a Choleg Ceredigion yn gallu helpu. Mae cyfleoedd hefyd i weithio gyda'r colegau hyn i gynnig cyfleoedd i bobl ifanc.

I gysylltu â'r colegau, anfonwch e-bost at business@ceredigion.ac.uk

Mae rhagor o wybodaeth am sut i gymryd rhan ar gael yma:
Coleg Ceredigion - Employers

## Coleg Y Cymoedd

Ar hyn o bryd, mae Coleg y Cymoedd, sy'n gweithio gyda dros 800 o gyflogwyr, yn chwilio'n gyson am fwy o fusnesau sy'n awyddus i fod yn rhan o'r gwaith o gefnogi pobl ifanc. Maent yn ceisio sicrhau bod eu cyrsiau yn diwallu anghenion busnesau, yn ogystal â chynnig profiadau a chyfleoedd datblygu i bobl ifanc.

Mae rhagor o wybodaeth am ba gymorth sydd ar gael yma:
Employers - Coleg y Cymoedd

BIWROAU CYFLOGAETH A CHOLEGAU

## Grŵp Colegau Castell-nedd Port Talbot

Yng Ngrŵp Colegau Castell-nedd Port Talbot, yn ogystal â chynnig cyfleoedd hyfforddi i fusnesau, maent yn ceisio meithrin partneriaethau gyda chyflogwyr sydd wedi ymrwymo i gynnig cyfleoedd i bobl ifanc. Mae hyn yn cynnwys Fforymau Cyflogwyr, cynllun 'Cyflogwr y Mis', a llawer mwy o gynlluniau.

Mae rhagor o wybodaeth am sut mae cymryd rhan ar gael yma:
Business Development - Business Partners - NPTC Group of Colleges

## Grŵp Llandrillo Menai

Cynnig amrywiaeth eang o gyrsiau sydd wedi'u hanelu at gefnogi datblygiad gweithwyr yn eich busnes, gan gynnwys gweithwyr ifanc, ac mae llawer ohonynt wedi'u cynllunio i gael eu darparu mewn amserlenni byr i sicrhau bod gweithwyr yn gallu neilltuo'r amser angenrheidiol. Mae amrywiaeth o brosiectau arloesol y gall busnesau gymryd rhan ynddynt hefyd.

Mae rhagor o wybodaeth am ba gymorth sydd ar gael yma:
Busnes@LlandrilloMenai | Grow your business with us (gllm.ac.uk)

# CEFNOGAETH ADNODDAU DYNOL

## ACAS – Pobl Ifanc a Deddfwriaeth

Mae cyfyngiadau ar waith i ddiogelu pobl ifanc yn y gweithle, yn enwedig y rheini rhwng 16-18 oed. Mae ACAS yn darparu canllawiau ar ddeddfwriaeth cyflogaeth i bobl ifanc.

Gwiriwch eich bod yn gweithio o fewn y polisïau hyn:
Young workers, apprentices and work experience - ACAS

## Canllaw i Waith Teg

Canllaw wedi'i greu i gyflogwyr i gael gwybod mwy am fanteision darparu amgylchedd gwaith teg yn y gweithle a newidiadau y gallwch eu rhoi ar waith yn eich busnes i ddod yn gyflogwr gwaith teg.

Darllenwch fwy yma: A guide to fair work | GOV.WALES

## Cenedl Hyblyg 2

Os yw eich busnes yn gweithredu yn un o'r naw sector blaenoriaeth a amlinellir yn y rhaglen a'ch bod yn cyflogi llai na 250 o weithwyr, gallwch dderbyn cymorth Adnoddau Dynol i wella eich proses recriwtio a chadw gweithwyr. Mae'r gefnogaeth yn amrywiol ond gall gynnwys ymgynghori, gweithdai a chynnal gweithgareddau newydd ar gyfer eich gweithwyr.

I gael rhagor o wybodaeth am y cynllun ac i weld a ydych chi'n gymwys, ewch i:
Agile Nation 2 | Business Wales Skills Gateway (gov.wales)

## CIPD

Mae'r Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu (CIPD) yn canolbwyntio ar wella amodau gwaith i weithwyr, a fydd o fudd iddynt hwy yn ogystal â'r busnesau. Maen nhw'n cynnig cyfleoedd hyfforddi a datblygu amrywiol i sicrhau bod eich prosesau AD yn addas er mwyn ymgysylltu â'r gweithwyr iawn.

I gael mwy o wybodaeth ewch i: Learning solutions for employers | CIPD

CEFNOGAETH ADNODDAU DYNOL

## Cyflogwyr Drysau Agored BITC

Yn gysylltiedig â'r ymgyrch Cyflogaeth a Sgiliau, mae Busnes yn y Gymuned yn cefnogi cyflogwyr i gyrraedd mwy o grwpiau dan anfantais gan gynnwys pobl ifanc, ffurfio partneriaethau newydd, a gwella eu prosesau recriwtio.

Gall cyflogwyr gofrestru eu diddordeb yma:
Opening Doors – Business in the Community (bitc.org.uk)

I gael mwy o wybodaeth ewch i:
Inclusive Recruitment: Opening Doors - Business in the Community (bitc.org.uk)

## Gwasanaeth i Mewn i Waith

Mae'r gwasanaeth hwn ar gael i fusnesau yng Nghaerdydd, ac mae'n darparu cymorth gyda phrosesau Adnoddau Dynol fel recriwtio a chyn-cyflogi. Gallant helpu i ddod o hyd i ymgeiswyr addas, trefnu cyfweliadau a hyd yn oed hyfforddiant. Gellir darparu lle i fusnesau gynnal cyfweliadau neu asesiadau, yn ogystal â rhoi cymorth i'r busnes a darpar weithwyr ifanc drwy gydol y broses recriwtio. Bydd disgwyl i chi warantu cyfweliadau (o fewn rheswm) i'r rheini y mae'r gwasanaeth yn ystyried eu bod yn addas ar gyfer y swydd wag.

I gael rhagor o wybodaeth am y gwasanaeth, ewch i:
Into Work Service | Business Wales Skills Gateway (gov.wales)

## Ymddiriedolaeth y Tywysog: Get Hired

Mae Ymddiriedolaeth y Tywysog yn gweithio gyda busnesau sydd eisiau gwella eu proses recriwtio ac yn helpu i hysbysebu swyddi i bobl ifanc a recriwtio talent ifanc i swyddi lefel mynediad. Gallant helpu i rag-sgrinio a chyfateb ymgeiswyr addas ar gyfer y rôl, gan dynnu rhywfaint o'r gwaith oddi ar gyflogwyr a'i gwneud yn haws i bobl ifanc ymgeisio.

Cewch ragor o wybodaeth yma:
Get Hired | Support our work | The Prince's Trust (princes-trust.org.uk)

# CEFNOGAETH ARIANNOL

### Lwfans Cyflogaeth

Fel busnes, a bod eich rhwymedigaethau Yswiriant Gwladol Dosbarth 1 fel cyflogwr yn llai na £100,000 yn y flwyddyn dreth flaenorol, efallai y gallwch gael cymorth i leihau eich rhwymedigaeth Yswiriant Gwladol flynyddol.

Mae rhagor o wybodaeth am y cynllun a sut mae hawlio ar gael ymae:
Employment Allowance: What you'll get - GOV.UK (www.gov.uk)

### ReAct+

Gall cyflogwyr dderbyn cymorth ariannol i recriwtio unigolion nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ar hyn o bryd, gyda hyd at £3,000 tuag at gyflog eu blwyddyn gyntaf a hyd at £1,000 tuag at hyfforddiant. Os ydych chi'n cyflogi person ifanc, gallwch gael gafael ar hyd at £1,000 o gyllid a hyd at £2,000 os oes gan y gweithiwr newydd anabledd. Rhaid i'r gweithiwr newydd fod yn gweithio am o leiaf 16 awr yr wythnos a bod yn gyflogedig am o leiaf 12 mis.

Gwnewch gais am y cymorth hwn yma:
Apply for an employer's grant to recruit those out of work: Apply | GOV.WALES

For more information visit: ReAct+ | Business Wales Skills Gateway (gov.wales)

# CEFNOGAETH BENODOL AR GYFER GRADDEDIGION

## Bright Network

Mae Bright Network yn cynnig gwybodaeth am y ffordd orau o ymgysylltu â graddedigion, gan ddarparu cymorth gyda'r prosesau marchnata a recriwtio. Gallant deilwra'r cymorth i anghenion eich busnes, gyda dros 800,000 o aelodau'n defnyddio'u gwasanaeth.

I gael rhagor o wybodaeth am y cymorth sydd ar gael, ewch i: Home | Bright Network

## Darogan Talent

Sefydlwyd Darogan Talent i gefnogi graddedigion i gael gafael ar gyfleoedd sydd ar gael iddynt yng Nghymru. Gyda mwy a mwy o fyfyrwyr a graddedigion yn defnyddio eu gwasanaethau, gall cyflogwyr ddefnyddio'r llwyfan hwn i hysbysebu unrhyw gyfleoedd sydd ganddynt i raddedigion.

I fynegi eich diddordeb mewn dod o hyd i raddedigion, llenwch y ffurflen gofrestru hon: Looking for talent (darogantalent.cymru)

I gael mwy o wybodaeth, ewch i: Darogan Talent

## Rhaglen Graddedigion Gwasanaethau Ariannol Cymru

Mae'r gwasanaethau hyn ar gael i fusnesau yn y sector ariannol, sydd wedi'u cynllunio i gefnogi graddedigion i ddechrau eu gyrfa a helpu busnesau i feithrin a chadw graddedigion. Mae'r rhaglen 2 flynedd hon yn rhedeg ochr yn ochr â gwaith, sy'n caniatáu i fusnesau dreialu talent, ac nid oes unrhyw rwymedigaeth i gyflogi'r graddedigion ar ddiwedd y cyfnod hwn.

Cewch ragor o wybodaeth yma:
Graduate Programme Wales | Business Wales Skills Gateway (gov.wales)

CEFNOGAETH BENODOL AR GYFER GRADDEDIGION

## Venture Graduates

Mae Venture Graduates yn cynnig cymorth i fusnesau yn benodol i gyflogi graddedigion. Mae gennych chi'r cyfle i lwytho swyddi gwag i fyny i'w gwefan, a chael cymorth i wella'ch hysbysebion swyddi. Gallant ddarparu rhestr fer o ymgeiswyr addas ar gyfer eich swyddi gwag, cefnogaeth barhaus drwy gydol cyflogaeth y graddedigion, a llawer o gyfleoedd eraill.

Mae rhagor o wybodaeth am gymorth Venture Graduate ar gael yma:
Employers | Venture - Find a graduate (venturewales.org)

# CEFNOGAETH BENODOL AR GYFER PRENTISIAETH

## Buddsoddwyr mewn Pobl – Achredu Prentisiaethau

Os ydych chi eisoes yn cynnig prentisiaethau, gall Buddsoddwyr mewn Pobl eich helpu i gael eich achredu. Byddant yn asesu'r busnes yn erbyn ei fframwaith mewn amrywiaeth o bynciau, gan gynnig adroddiadau ac argymhellion ar gyfer gwella, gan eich galluogi i ddenu'r unigolyn iawn i'ch rhaglen brentisiaeth.

I gael gwybod mwy a dechrau arni, ewch i:
Apprenticeship Accreditations • We Invest In Apprentices | Investors in People

## Gradd-brentisiaethau

Mae Gradd-brentisiaethau yn rhoi'r cyfle i uwchsgilio gweithwyr hyd at Lefel 6 (sy'n cyfateb i Radd Baglor israddedig lawn) mewn rolau Digidol neu Beirianneg a Gweithgynhyrchu Uwch.

Mae mwy o wybodaeth ar gael:
Degree apprenticeships | Business Wales Skills Gateway (gov.wales)

## Gwasanaeth Paru Prentisiaethau (Gwasanaeth Prentisiaethau Gwag AVS)

Mae'r Gwasanaeth Paru Prentisiaethau (Gwasanaeth Prentisiaethau Gwag AVS) yn caniatáu i fusnesau restru eu prentisiaethau gwag drwy greu Proffil Cyflogwr, lle gall darpar weithwyr ifanc weld mwy amdanoch chi a'ch busnes cyn gwneud cais. Mae'r llwyfan hwn yn rhoi cyfle i chi gyrraedd darpar brentisiaid, yn ogystal â thynnu sylw at rannau allweddol o'r rôl a'r hyn rydych chi'n chwilio amdano mewn ymgeisydd.

Mae rhagor o wybodaeth am y gwasanaeth hwn ar gael yma:
Business Profile - Apprenticeships | Business Wales Skills Gateway (gov.wales)

CEFNOGAETH BENODOL AR GYFER PRENTISIAETH

## Prentisiaethau

Mae prentisiaethau'n ffordd gost-effeithiol o gyflwyno pobl ifanc i'ch busnes, ochr yn ochr â datblygu eu sgiliau. Os ydych chi'n ystyried cynnig prentisiaethau yn eich gweithle, gallwch gael cymorth gan Gynghorydd Ymgysylltu â Chyflogwyr a fydd yn eich helpu i gael mynediad at y rhaglen.

I gael gwybod mwy a sut i gymryd rhan, ewch i:
Apprenticeships | Business Wales Skills Gateway (gov.wales)

## Prentisiaethau Lefel Uwch

Mae Prentisiaethau Lefel Uwch yn caniatáu i fusnesau gynnig cymwysterau NVQ Lefel 4 i weithwyr. Gall unigolion ennill cymwysterau uwch wrth weithio, yn ogystal â helpu busnesau i uwchsgilio eu gweithlu.

Mae mwy o wybodaeth ar gael:
Higher Level Apprenticeships | Business Wales Skills Gateway (gov.wales)

# CYFLEOEDD HYFFORDDIANT WEDI'U HARIANNU

## Arweinyddiaeth ION

Mae rhaglen Arweinyddiaeth ION yn caniatáu i fusnesau, mewn gwahanol rannau o Gymru, ddatblygu eu sgiliau, gwella rheolaeth y busnes (perchnogion, cyfarwyddwyr, arweinwyr tîm a rheolwyr, ac ati) a chreu rhwydweithiau o arweinwyr busnes sy'n gallu cefnogi ei gilydd a rhannu syniadau. Mae dau gwrs wedi'u hariannu'n llawn ar gael sy'n cynnwys amrywiaeth o weithgareddau fel dosbarthiadau meistr, digwyddiadau, gweithredu a mwy.

Cewch ragor o wybodaeth yma:
ION Leadership | Business Wales Skills Gateway (gov.wales)

## Cronfa Ddysgu Undebau Cymru (WULF)

Gall gweithwyr sy'n aelodau o Undebau Llafur gael gafael ar gymorth i wella eu sgiliau, yn enwedig y rheini sydd 'ddim yn ddysgwyr traddodiadol'. Mae Undebau Llafur yn gweithio mewn partneriaeth â'r cyflogwr i sicrhau y bydd yr hyfforddiant arfaethedig yn cael effaith gadarnhaol ar y busnes. Undebau Llafur sy'n gorfod gwneud cais am y cyllid, felly byddai angen i'r busnes gysylltu â'u Hundeb Llafur i weld a yw hwn yn wasanaeth y maent yn ei gynnig.

I gael mwy o wybodaeth ewch i:
Wales Union Learning Fund (WULF) | Business Wales Skills Gateway (gov.wales)

## Cyfrifon Dysgu Personol

Mae'r rhaglen Cyfrifon Dysgu Personol yn cynnig cyfle i bobl dros 19 oed ddatblygu eu sgiliau mewn rhai sectorau. Mae amrywiaeth eang o gyrsiau cymeradwy ar gael drwy'r cynllun hwn, gan gefnogi gweithwyr i naill ai ddatblygu ymhellach yn eu rôl bresennol, neu i newid eu gyrfa. Mae'r cyrsiau hyn wedi'u hariannu'n llawn, ond rhaid i'r rhai sy'n ymgeisio fodloni meini prawf penodol.

Mae'n rhaid i'r ymgeisydd wneud ymholiad ei hun drwy:
Personal Learning Accounts | Careers Wales (gov.wales)

Neu, gallant gysylltu â'u coleg lleol i weld pa gyrsiau sydd ar gael iddynt dan y rhaglen hon.

CYFLEOEDD HYFFORDDIANT WEDI'U HARIANNU

## Cymraeg Gwaith

Gall pob busnes yng Nghymru gael gafael ar gymorth i wella eu cyfleoedd dwyieithog. Mae adnodd diagnostig ar gael i'ch helpu i ganfod pa feysydd o'ch busnes sydd â bylchau yn y Gymraeg o bosib, pa adrannau y dylech ganolbwyntio eich staff dwyieithog arnynt, a chefnogaeth i wella sgiliau Cymraeg gweithwyr, gan gynnwys eu hyder wrth ddefnyddio'r sgiliau hyn.

Mae'r diagnostig ar gael yma: The Learn Welsh Level Checker | Learn Welsh

Mae cyrsiau Cymraeg ar gael yma: Croeso - welcome | Learn Welsh

I gael mwy o wybodaeth ewch i: Work Welsh | Business Wales Skills Gateway (gov.wales)

## Grant Cymorth Recriwtio a Hyfforddi i Gyflogwyr

Drwy gymorth ReAct+, gall cyflogwyr gael hyd at £3,000 ar gyfer cyflogi pobl ifanc sy'n 18-24 oed ac nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ar hyn o bryd (telir 50% i weithwyr rhan-amser). Bydd y swm a dderbynnir yn dibynnu ar hyd y gyflogaeth ac fe'i telir mewn 4 cam, a rhaid i'r person ifanc barhau i weithio am 13-52 wythnos.

I gael rhagor o wybodaeth am sut i hawlio, ewch i: Claim your Employer Recruitment and Training Support Grant | Business Wales Skills Gateway (gov.wales)

## Hyfforddeiaeth

Mae Hyfforddeiaeth, a gynigir drwy Gyrfa Cymru, ar gael i bobl ifanc 16-17 oed nad ydynt mewn addysg na chyflogaeth amser llawn, a phobl ifanc 18 oed sydd newydd orffen/gadael addysg, gan roi cyfle iddynt gael blas ar gyflogaeth wrth ddatblygu eu sgiliau.

I gynnig Hyfforddeiaeth yn eich busnes, cysylltwch â Gyrfa Cymru ar 0800 028 4844.

I gael mwy o wybodaeth ewch i:
Traineeships | Business Wales Skills Gateway (gov.wales)

CYFLEOEDD HYFFORDDIANT WEDI'U HARIANNU

## Interniaethau Career Ready

Mae rhan o'r rhaglen Career Ready yn cynnwys cefnogi busnesau i gynnig interniaethau â thâl i bobl ifanc yn ystod gwyliau'r haf. Mae cyllid ar gael drwy'r Gronfa Buddsoddi mewn Interniaethau i gefnogi busnesau bach a chanolig i allu cynnig y cyfleoedd hyn.

Mae rhagor o wybodaeth am Career Ready a sut mae cymryd rhan ar gael yma: Employers - Career Ready

## Porth Sgiliau Busnes Cymru

Yma gallwch gael gafael ar Broffil Sgiliau a nodi meysydd lle gallech wella'r sgiliau yn eich busnes. Gallwch gael mynediad at gymwysterau achrededig ar gyfer eich cyflogeion a chefnogi eu datblygiad. Mae ffioedd hyfforddi'n cael eu hariannu'n rhannol, lle mae'n rhaid i gyflogwyr dalu canran o'r ffioedd yn dibynnu ar faint y busnes.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i: Welcome to the Skills Gateway for Business - for skills development support | Business Wales Skills Gateway (gov.wales)

## Sgiliau ar gyfer Diwydiant 2

Mae'r cynllun hwn ar gael i fusnesau yn Ne Cymru, gan gynnig hyfforddiant penodol i'r sector i weithwyr ar draws amrywiaeth o sectorau. Mae lefel yr hyfforddiant sydd ar gael i weithwyr yn dibynnu ar lefel y cymwysterau sydd ganddynt ar hyn o bryd. Mae cyrsiau'n cael cymhorthdal, ac mae'n rhaid i fusnesau dalu canran o'r costau hyfforddi, yn dibynnu ar faint y busnes.

Cewch ragor o wybodaeth yma:
Skills for Industry 2 | Business Wales Skills Gateway (gov.wales)

CYFLEOEDD HYFFORDDIANT WEDI'U HARIANNU

## SSE (Sgiliau i Gyflogwyr a Gweithwyr)

Mae'r cynllun hwn yn cynnig cyfle i asesu eich gweithlu a chanfod lle gallai eich bylchau sgiliau fod, ac yna darparu cymorth i gynllunio a gweithredu'r hyfforddiant gofynnol. Mae cyrsiau'n cael cymhorthdal, gyda busnesau ond yn gorfod talu canran o'r costau hyfforddi, yn dibynnu ar faint y busnes. Fe'i datblygwyd i dargedu sectorau penodol, ond gall unrhyw fusnes wneud cais, ar yr amod eu bod yn gallu dangos y manteision y bydd yr hyfforddiant yn ei greu i'w busnes.

I gael mwy o wybodaeth, ewch i:
SEE (Skills for Employers and Employees) | Business Wales Skills Gateway (gov.wales)

## Twf Swyddi Cymru+

Mae hon yn rhaglen hyblyg sy'n caniatáu i fusnesau ddarparu cyfleoedd newydd i bobl ifanc. Drwy gynnig lleoliadau, treialon, neu debyg, i bobl ifanc 16-18 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, bydd busnesau'n gallu cael gafael ar gymorthdaliadau cyflog o hyd at 50% o gostau cyflogaeth y 6 mis cyntaf. Ochr yn ochr â hyn, gallwch gael cymorth 1:1 i ddatblygu'r cyfleoedd hyn lle bo angen.

Gall cyflogwyr fynegi eu diddordeb yn y cynllun hwn, lle bydd Cynghorydd Ymgysylltu â Chyflogwyr yn cael ei neilltuo iddynt, ewch i:
SGfB Expression of interest EOI | Business Wales Skills Gateway (gov.wales)

I gael rhagor o wybodaeth am y rhaglen a chymhwysedd, ewch i:
Jobs Growth Wales Plus | Working Wales (gov.wales)

Jobs Growth Wales+ | Business Wales Skills Gateway (gov.wales)

## Uwchsgilio @ Waith

Mae'r cynllun hwn yn darparu hyfforddiant sy'n seiliedig ar alw i fusnesau ac mae ar gael mewn gwahanol rannau o Gymru. Byddant yn eich helpu i ddod o hyd i staff i gymryd rhan a'u cefnogi i ddatblygu eu sgiliau. Bydd lefel y datblygiad yn dibynnu ar y cymwysterau sydd gan y gweithiwr ar hyn o bryd. Mae'r hyfforddiant yn cael ei ariannu'n rhannol, ac mae angen i gyflogwyr dalu canran yn dibynnu ar faint y busnes.

I weld a ydych chi'n gymwys ac i gael gwybodaeth am sut i gael gafael ar y cymorth hwn, ewch i: Upskilling@Work | Business Wales Skills Gateway (gov.wales)

CYFLEOEDD HYFFORDDIANT WEDI'U HARIANNU

### Ymddiriedolaeth y Tywysog: Get Into

Nod y rhaglen hon yw uwchsgilio pobl ifanc mewn sector penodol, er mwyn iddynt ennill cymwysterau sy'n gysylltiedig â'r maes gwaith y mae ganddynt ddiddordeb ynddo a sicrhau cyflogaeth newydd. Mae Ymddiriedolaeth y Tywysog yn dibynnu ar y bartneriaeth gyda chyflogwyr i allu cynnig y rhaglen hon, drwy gefnogaeth gyda mewnbwn penodol i'r sector, hyfforddiant a chynnig cyfleoedd i'r bobl ifanc sy'n cwblhau'r rhaglen.

I ffurfio partneriaeth ag Ymddiriedolaeth y Tywysog ar y rhaglen hon, ewch i: Ways your business can support | The Prince's Trust (princes-trust.org.uk)

# CYMORTH HYFFORDDIANT PELLACH

## 20Twenty

Mae'r cynllun hwn ar gael i fusnesau yn Nwyrain Cymru, ac mae'n rhoi cyfle i arweinwyr yn y busnes wella eu sgiliau drwy gymwysterau achrededig. Mae wedi cael ei ddatblygu gyda busnesau mewn golwg, felly mae cyfyngiadau amser a chyllidebau wedi cael eu hystyried wrth greu'r gwasanaeth hwn.

I gael mwy o wybodaeth ewch i: 20Twenty | Business Wales Skills Gateway (gov.wales)

## Cynhwysiant Gweithredol Cymru

Mae'n galluogi busnesau i gefnogi'r rheini sy'n economaidd anweithgar, neu'n ddi-waith yn y tymor hir, sy'n wynebu rhwystrau wrth geisio cael gwaith. Gall busnesau gymryd rhan i gefnogi'r unigolion hyn drwy ddarparu cyfleoedd hyfforddi a datblygu, lleoliadau gwaith a mwy.

I gael mwy o wybodaeth ewch i:
Active Inclusion Wales | Business Wales Skills Gateway (gov.wales)

## METaL

Mae'r rhaglen hon ar gael ar gyfer dysgu yn y sector Deunyddiau a Gweithgynhyrchu, gan gefnogi'r gwaith o wella gwybodaeth a sgiliau i weithwyr sy'n gweithio yn y meysydd hyn. Er mwyn helpu i gefnogi perfformiad a chynhyrchiant busnesau, mae sawl cwrs 3 diwrnod ar gael, gyda ffioedd yn berthnasol.

I gael mwy o wybodaeth ewch i: METaL | Business Wales Skills Gateway (gov.wales)

## Movement to Work

Sefydlwyd Movement to Work i fynd i'r afael â diweithdra ymysg pobl ifanc yn y DU, maent yn cefnogi cyflogwyr i ddarparu lleoliadau gwaith sy'n cyfuno hyfforddiant sgiliau cyflogadwyedd â phrofiad yn y gwaith. Byddant yn penderfynu beth sydd ei angen arnoch ar gyfer eich busnes, ac yna'n helpu i hyfforddi a chyflwyno rhaglenni newydd, gan gysylltu cyflogwyr â phobl ifanc nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth.

Gall cyflogwyr weithio mewn partneriaeth â Movement to Work yma:
Employers Join Now – Movement to Work

I gael mwy o wybodaeth ewch it: Movement to Work – Movement to Work is a voluntary collaboration of UK employers committed to tackling youth unemployment through provision of high quality vocational training and work experience opportunities for young people.

# CYMORTH IECHYD A LLESIANT

## Cymru Iach ar Waith

Mae'r gwasanaeth rhad ac am ddim hwn, a ddarperir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, ar gael i unrhyw gyflogwr ac mae'n cynnig hyfforddiant, digwyddiadau, cyngor a chefnogaeth ynghylch iechyd a lles gweithwyr. Bydd y cymorth yn eich helpu i greu a datblygu polisïau eich busnes ac i wella cyfathrebu ynghylch iechyd a lles. Mae cynllun gwobrau am ddim ar gael i gyflogwyr yng Nghymru, sy'n darparu fframwaith i wella iechyd a lles gweithwyr yn y gweithle.

I fynegi eich diddordeb yn y gefnogaeth hon, anfonwch e-bost at: Workplacehealth@wales.nhs.uk

I gael rhagor o wybodaeth am y cynllun, ewch i: Healthy Working Wales - Public Health Wales (nhs.wales)

## Gwasanaeth Cymorth yn y Gwaith

Mae'r cymorth hwn, sydd ar gael mewn sawl rhan o Gymru, yn benodol i unrhyw un a gyflogir sydd â phroblemau cyhyrysgerbydol neu gyflyrau iechyd meddwl. Mae'r gwasanaeth yn rhad ac am ddim ac wedi'i gynllunio i helpu pobl i ddychwelyd i'r gwaith neu i reoli eu cyflwr iechyd mewn gwaith. Maent hefyd yn cynnig cefnogaeth a hyfforddiant am ddim yn uniongyrchol i fusnesau yn y sector preifat a'r trydydd sector, nad ydynt yn aml yn gallu cael gafael ar wasanaethau iechyd galwedigaethol.

Gall cyflogwyr gysylltu â'r gwasanaeth yn uniongyrchol i gael cymorth i'w gweithwyr. I gael manylion, ewch i: In-Work Support Service | Business Wales Skills Gateway (gov.wales)

## Mynediad i Waith

Mae'n darparu cymorth ariannol i fusnesau sy'n awyddus i gyflogi rhywun ag anabledd, gyda'r cyllid ar gael ar gyfer addasiadau angenrheidiol i'w galluogi i weithio'n effeithlon. Mae sawl agwedd ar y grant, ond gallai gynnwys pethau fel gweithwyr cymorth, costau teithio, a chymorth cyfathrebu. Mae hyn yn sicrhau bod pobl ag anableddau, gan gynnwys pobl ifanc ag anableddau, yn cael cyfleoedd gwaith teg.

Access to Work | Business Wales Skills Gateway (gov.wales)

CYMORTH IECHYD A LLESIANT

## Working Minds

Gall gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd a datblygu gefnogi eich busnes i wella iechyd a lles eich gweithwyr ac, yn ei dro, gwella cynhyrchiant eich busnes. Maen nhw'n cynnig cymorth hyblyg i'ch helpu chi i fynd i'r afael ag unrhyw broblemau sy'n ymwneud ag iechyd a lles ac yn rhoi cymorth ar waith i reoli'r rhain wrth symud ymlaen.

I gael rhagor o wybodaeth am y cymorth sydd ar gael, ewch i:
Working Minds | About us

## Y Gwasanaeth Di-waith

Mae'r Gwasanaeth Di-waith, sydd ar gael mewn gwahanol rannau o Gymru, yn cefnogi unigolion sy'n gwella o gamddefnyddio sylweddau a/neu iechyd meddwl i gael gwaith ac aros mewn gwaith. Maent yn gweithio'n agos gyda chyflogwyr i gynnig mynediad at gyflogaeth. Gall cyflogwyr sy'n cefnogi ac yn cyflogi drwy'r gwasanaeth hwn dderbyn cyngor a chefnogaeth gan fentoriaid am 3 mis.

I gael cynnig cyflogaeth a chael gafael ar y gwasanaeth hwn, ewch i:
Out of Work Service | Business Wales Skills Gateway (gov.wales)

# PARTNERIAID ADDYSGOL

## Career Ready

Mae Career Ready yn gweithio gyda chyflogwyr ledled y DU i gynnig cyfleoedd cyflogaeth i bobl ifanc. Gallant roi busnesau mewn cysylltiad â phobl ifanc sy'n chwilio am waith a chynnig cymorth gydag interniaethau, mentora, dosbarthiadau meistr sgiliau, a mwy.

Dysgwch fwy am Career Ready a llenwi ffurflen fer i roi cychwyn arni mewn partneriaeth â nhw: Employers - Career Ready

## Dosbarth Busnes BITC

Mae Dosbarth Busnes, Busnes yn y Gymuned (BITC) yn cefnogi llwyddiant pobl ifanc yn yr ysgol drwy feithrin partneriaethau rhwng ysgolion a busnesau. Mae'r partneriaethau newydd hyn yn caniatáu i fusnesau ac ysgolion ddysgu oddi wrth ei gilydd, yn ogystal ag ategu gwasanaethau ei gilydd. Bydd gweithgareddau'n caniatáu i fusnesau edrych ar eu harferion gorau a chymryd rhan mewn gweithgareddau i gefnogi pobl ifanc.

Er mwyn i gyflogwyr gymryd rhan, anfonwch e-bost at: cymru@bitc.org.uk

I gael mwy o wybodaeth ewch i:
Business Class | Business Wales Skills Gateway (gov.wales)
Wales Business Class Partnership Stories - Business in the Community (bitc.org.uk)

## GO Cymru

Mae GO Cymru yn gweithio gyda phobl ifanc mewn Addysg Uwch i oresgyn eu rhwystrau i fyd gwaith. Maent yn chwilio am fusnesau sy'n gallu cynnig cyfleoedd profiad gwaith i bobl ifanc. Gallai'r profiad y mae busnesau'n ei gynnig gynnwys cysgodi, diwrnodau blasu a lleoliadau gyda'r potensial i gael cyllid, os yw'n gyfle am dâl.

Cewch ragor o wybodaeth yma: GO Wales | Business Wales Skills Gateway (gov.wales)

PARTNERIAID ADDYSGOL

## Inspiring The Future

Mae Inspiring The Future yn elusen sy'n gweithio gyda busnesau i'w cysylltu ag ysgolion a cholegau, gan helpu i annog a chymell pobl ifanc drwy ganiatáu i gyflogwyr rannu eu straeon a'u cyfleoedd eu hunain.

Cysylltwch â nhw yma: Employers - Inspiring The Future

I gael mwy o wybodaeth ewch i: About - Inspiring The Future

## Partneriaeth Addysg Busnes (EBP)

Sefydlwyd y cynllun hwn gan Gyrfa Cymru ac mae wedi cael ei greu i helpu i ysbrydoli ac ysgogi pobl ifanc. Mae'n rhoi cyfle i gyflogwyr ymwneud ag ysgolion i roi gwybodaeth i bobl ifanc am eich busnes a chreu mwy o ymwybyddiaeth o'r sector.

Gallwch gymryd rhan yma:
The Education Business Partnership | Careers Wales (gov.wales)

# PARTNERIAID CYFLOGAETH I WEITHIO Â NHW

## Cyflogaeth Pobl Anabl

Os ydych chi'n awyddus i gyflogi gweithlu mwy amrywiol, fel person ifanc ag anabledd, cysylltwch â Hyrwyddwyr Cyflogaeth Pobl Anabl i gael cyngor, gwybodaeth a chefnogaeth am ddim i sicrhau bod eich busnes yn gynhwysol.

Cysylltwch â'r Hyrwyddwyr yn uniongyrchol DPEC@gov.wales

I gael mwy o wybodaeth ewch i:
Disabled People's Employment | Business Wales Skills Gateway (gov.wales)

## Engage to Change

Mae'r prosiect hwn yn gweithio gyda phobl ifanc ag anableddau i'w cefnogi i gyflawni eu potensial yn llawn. Maent hefyd yn gweithio gyda chyflogwyr i ddarparu mwy o wybodaeth am anableddau, eu cefnogi i chwalu rhwystrau i ddod yn fwy cynhwysol, a darparu cefnogaeth barhaus drwy gydol cyflogaeth y person ifanc.

Mae rhagor o wybodaeth am sut gallwch chi gymryd rhan ar gael yma:
Support for employers - Engage to Change

## Fforwm Canolfannau Cyswllt Cymru

Mae'r gwasanaeth hwn, sy'n berthnasol i fusnesau canolfannau galwadau, yn cefnogi unigolion di-waith i ddatblygu eu sgiliau i gael swydd newydd. Gallwch chi weithio mewn partneriaeth â'r gwasanaeth hwn, a fydd yn dod o hyd i bobl sydd â diddordeb mewn rolau mewn canolfannau galwadau ac yn eu cefnogi gyda hyfforddiant. Yna, mae'n ofynnol i fusnesau gynnig cyfweliadau i'r rheini sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant a ddarperir gan y gwasanaeth.

I gael mwy o wybodaeth ewch i:
Welsh Contact Centre Forum | Business Wales Skills Gateway (gov.wales)

## Gyrfa Cymru

Gall Gyrfa Cymru gynnwys eich swyddi gwag presennol ar eu gwefan, er mwyn i'r bobl ifanc maen nhw'n gweithio gyda nhw allu gweld y cyfleoedd sydd ar gael. Mae ganddynt hefyd gefnogaeth ar gyfer dileu swyddi, recriwtio a gweithio gydag ysgolion.

Anfonwch e-bost at vacancies@careerswales.gov.wales gyda manylion y swydd wag, gan gynnwys dolen i'r hysbyseb swydd os yw'n bosibl.

I gael rhagor o wybodaeth am gyfleoedd i gymryd rhan, ewch i:
Employers | Careers Wales (gov.wales)

## Rhaglenni Cyflogadwyedd Cymunedol

Fel rhan o'r Warant i Bobl Ifanc, maen nhw'n cynnig cymorth i'r rheini sy'n cael eu tangynrychioli yn y farchnad lafur. Maent yn cefnogi cyflogwyr i gael mynediad at raglenni amrywiol, gan helpu unigolion i oresgyn rhwystrau sy'n eu hatal rhag cael gwaith.

I gael mwy o wybodaeth ewch i:
Community Employability Programmes | Business Wales Skills Gateway (gov.wales)

## Siarter Cyflogaeth Ieuenctid Da gan Youth Employment UK

Gall busnesau gael Bathodyn Cyflogwr Ystyriol o Bobl Ifanc Cymru a gellir ei gynnwys ar y gronfa ddata Cyflogwyr Ystyriol o Bobl Ifanc os ydynt yn dangos eu hymrwymiad i'r 5 egwyddor graidd: creu cyfleoedd, cydnabod talent, cyflogaeth deg, datblygu pobl, a llais pobl ifanc.

I gael rhagor o wybodaeth am sut gallwch chi gael gafael ar Fathodyn Cyflogwr Ystyriol o Bobl Ifanc Cymru, ewch i:
The Good Youth Employment Charter - Youth Employment UK

## Y Siarter Busnes Da drwy FSB

Gan weithio ochr yn ochr â'r Good Business Foundation, mae'r Ffederasiwn Busnesau Bach (FSB) wedi addasu'r Siarter Busnes Da, er mwyn ei gwneud yn fwy cyraeddadwy i fusnesau bach. I fod yn rhan o'r siarter hon ac arddangos eich hun fel cyflogwr da, bydd angen i'ch busnes fodloni meini prawf penodol o ran cyflog, oriau gwaith, cymorth i weithwyr, a mwy.

Mae rhagor o wybodaeth am y Siarter ar gael yma:
The Good Business Charter | FSB, The Federation of Small Businesses

## Youth Cymru

Mae Youth Cymru yn elusen sy'n gwasanaethu Cymru gyfan, ac mae'n awyddus i weithio gyda phartneriaid i gynnig cyfleoedd i bobl ifanc, gan sicrhau eu bod yn cael mynediad at gyflogaeth, hyfforddiant a datblygiad. Maent yn gweithio'n agos gyda phobl ifanc i sicrhau bod yr hyn a ddarperir ganddynt yn seiliedig ar eu hanghenion, gan rannu unrhyw ganfyddiadau gyda'u haelodau, fel y gellir rhoi gwelliannau ar waith.

I gael gwybod mwy am sut i gymryd rhan yn y rhaglenni, ewch i:
Join Us – Youth Cymru

## Youth Futures Foundation – Igniting Change

Gallwch weithio mewn partneriaeth â Youth Futures Foundation i gael cymorth i oresgyn y rhwystrau y mae pobl ifanc yn eu hwynebu, yn enwedig y rheini o gefndiroedd difreintiedig. Maent yn gweithio gyda phartneriaid ac yn cefnogi cyflogwyr i greu cyfleoedd newydd.

Cewch ragor o wybodaeth yma: Ignite – Youth Futures Foundation.

Busnes Cymru | Business Wales

## CYSWLLT

Cysylltwch â ni i drafod sut all eich busnes gefnogi pobl ifanc i ddod o hyd i waith gydag un o'n cynghorwyr.

Ffoniwch Busnes Cymru ar **03000 6 03000** neu ewch i **Cymorth Recriwtio | Busnes Cymru Porth Sgiliau (gov.wales)** am ragor o wybodaeth, cymorth a chyngor am ddim.




**03000 6 03000**

busnescymru.llyw.cymru
businesswales.gov.wales


Llywodraeth Cymru
Welsh Government